**EUR(2-06-04(p03)**

# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **1 Gorffennaf 2004** |
| **Amser** | **0900** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Lleoliad** | **Hynt Canol Blwyddyn Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2004** |

**Teitl:**

## Diben

Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am hynt rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd a chysylltu hyn ag agenda polisi'r Cynulliad yn ystod yr un cyfnod. Dylid darllen y papur hwn law yn llaw â'r papur a oedd yn nodi Rhaglen Waith y Comisiwn ar gyfer 2004 a gyflwynwyd yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 4 Rhagfyr 2003.

## Cefndir

Mae 2004 yn flwyddyn o newid i'r UE. Derbyniwyd deg aelod newydd ar 1 Mai. Felly, mewn un genhedlaeth, mae'r sefydliad wedi tyfu o fod â 6 aelod i fod â 25 aelod. Etholwyd Senedd Ewrop newydd, fwy o faint. Mae Pwyllgor y Rhanbarthau wedi tyfu i gynnwys Aelodau newydd. Mae'r Cytundeb Cyfansoddiadol yn hofran.

Mae nifer o Gomisiynwyr wedi gadael Brwsel yn gynnar i ddychwelyd i wleidyddiaeth cenedlaethol (Barnier, Diamantopoulou, Solbes). Mae penodiadau dros dro wedi'u gwneud yn lle y rhain ac mae deg Comisiynydd o blith yr aelodau newydd yn gweithio fel dirprwyon mewn portffolios presennol cyn i'r Comisiwn yn ei gyfanrwydd gael ei ailwampio ym mis Hydref/Tachwedd.

Yn anochel, mae synnwyr o fyrhoedledd yn treiddio drwy'r sefydliadau a bydd hyn yn parhau am

weddill y flwyddyn. Hyd yn oed pan fydd y Senedd a'r Comisiwn newydd ar waith ac yn cydweithio'n ffurfiol bydd cryn dipyn o amser cyn y bydd deinameg wleidyddol newydd yn ymddangos. Er gwaethaf y newidiadau sylweddol hyn, mae busnes yn parhau i fynd yn ei flaen ar beth oedd yn rhaglen waith weddol ysgafn i'r Comisiwn ar gyfer 2004. I raddau helaeth llwyddwyd i osgoi anghytundeb llwyr o ganlyniad i gynllunio synhwyrol a'r drafodaeth dynnach rhwng y Comisiwn a sefydliadau eraill a fu'n un o nodweddion y blynyddoedd diweddar. Mae hyn wedi mynd tipyn o'r ffordd tuag at gyfyngu ar bethau annisgwyl a chynnal parhad er gwaethaf y llif sefydliadol.

## Rhaglen Waith Canol Blwyddyn y Comisiwn 2004

### Datblygu Economaidd

Nododd y Comisiwn gynigion eang ar gyfer cyfundrefn Cronfeydd Strwythurol newydd yn y Trydydd Adroddiad Cydlyniant (Chwefror) a drafodwyd yn y Fforwm Cydlyniant ym mis Mai. Siaradodd Prif Weinidog Cymru yn y Fforwm ac roedd nifer o aelodau'r pwyllgor yn bresennol. Yn fyr, byddai EUR336b yn cael ei glustnodi ar gyfer cydlyniant yn 2007-13, wedi'i rannu rhwng tri amcan newydd: Cydgyfeirio, Cystadleugarwch a Chyflogaeth, a Chydweithio.

Mewn Dogfen Gyfathrebu a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, cynigiodd y Comisiwn ragolwg ariannol (cyllideb, mewn iaith syml) a osodwyd ar 1.14% Incwm Cenedlaethol Crynswth (GNI) yr UE. Mae chwe Aelod-wladwriaeth bwerus (y rhai a elwir yn B6), gan gynnwys y DU, wedi galw am gapio'r gyllideb ar 1% GNI.

Mae'r canllawiau ar gymorth y wladwriaeth o ran achub ac ailstrwythuro yn dod i ben ym mis Tachwedd 2004 a bydd Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cystadleuaeth, nid y Cyngor, yn mabwysiadu cyfundrefn newydd. Bydd rheolau newydd yn golygu y bydd yn rhaid cael "mesurau digolledu' gan gwmnïau sy'n derbyn cymorth achub ac ailstrwythuro er mwyn gwneud yn iawn am effeithiau rhagfarn cystadleuol.

Cyhoeddwyd papur ymgynghori yn cynnig diwygio'r gyfundrefn cymorth rhanbarthol ym mis Ebrill. Mae'r Comisiwn am fod yn gyson rhwng cymorth y wladwriaeth a'r gyfundrefn cydlyniant newydd ar ôl 2006 tra'n sicrhau lleihad cyffredinol yn lefelau'r cymorth ledled yr UE. Disgwylir cynnig drafft yn yr hydref.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Cystadleugarwch wrthi'n trafod y Gyfarwyddeb Ddrafft ar gyfer Gwasanaethau yn y Farchnad Fewnol. Nod hyn yw cael gwared ar y rhwystrau i fasnachu yn y farchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau. Mae'r DU yn rhoi cefnogaeth gref i'r Comisiwn er y bydd cytundeb terfynol ar y ddeddfwriaeth gymhleth hon yn annhebygol cyn diwedd 2005.

### Amaethyddiaeth

Methodd Cyngor Amaethyddiaeth mis Mai â dod i gytundeb ar gynigion y Comisiwn i ddiogelu anifeiliaid sy'n cael eu cludo drwy gyfyngu ar amser cadw anifeiliaid mewn cerbydau, gan ddarparu

digon o awyr iach a diod. Bydd y ffeil hon yn cael ei throsglwyddo i lywyddiaeth newydd yr Iseldiroedd ond mae'n annhebyg y caiff y mesur ei ailgyflwyno yn y dyfodol agos.

Daethpwyd i gytundeb ar ddiwygio PAC ar gyfer Pecyn y Canoldir i ddatgysylltu'n rhannol olew yr olewydd, tybaco, cotwm a hopys.

Cyflwyno cronfa Ddatblygu Gwledig unigol sy'n cwmpasu adnoddau o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) (gan gynnwys Amcan Un) a Leader yw'r mater pwysicaf sy'n aros heb ei ddatrys o hyd. Nid yw'r Comisiwn eto wedi cytuno ar ei safle ei hun gan arwain at oedi o ran cyhoeddi'r cynigion, a ddisgwylir bellach ym mis Medi.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi adroddiad ar adnabod a labelu cynhyrchion cig eidion sydd wedi cael ei ddarlleniad cyntaf ym Mhwyllgor Arbennig Amaethyddiaeth. Mae'r adroddiad yn dilyn rheoliadau ar olrhain cig eidion a chig llo ffres, wedi'i oeri ac wedi'i rewi, a gyflwynwyd yn ystod argyfwng BSE.

## Iechyd a Materion Cymdeithasol

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu tair Dogfen Gyfathrebu gyda'r nod o annog cydweithredu rhwng Aelod-Wladwriaethau i godi safonau gofal iechyd o ansawdd sy'n hygyrch: Symudedd Clefion a Gofal Iechyd; Cyfathrebu ar ymestyn y dull agored o gydlynian ar ofal iechyd a gofal tymor hir a Chyfathrebu ar Gynllun Gweithredu e-Iechyd.

Mae'r Cyngor a Senedd Ewrop wedi cymeradwyo creu Canolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau i ddarparu dull systematig o reoli clefydau trosglwyddadwy a bygythion eraill i iechyd. Bydd yn cael ei lleoli yn Sweden a dylai fod yn weithredol o 2005.

Mae'r Adolygiad o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn dal i ddigwydd, ac mae'n cael ei gymhlethu gan ddyfarniadau SiMPA/Jaeger. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ail gam ei bapur ymgynghori ar gyfer partneriaid cymdeithasol.

Fel rhan o broses Lisbon, cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad blynyddol cyntaf gerbron Cyngor Ewropeaidd y Gwanwyn ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Nododd welliannau sylweddol yng nghyfradd cyflogaeth menywod tra'n galw am fwy o ymdrech i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

## Llywodraethu

Fel rhan o'i ymrwymiad i wella'r ymgynghori ag awdurdodau lleol a rhanbarthol cynhaliodd y Comisiwn sesiwn agoriadol o "drafodaeth strwythuredig" rhwng y Comisiwn a chynrychiolwyr o sefydliadau rhanbarthol cenedlaethol a rhyngwladol. Galwodd yr Arlywydd Prodi y cyfarfod hwn ym mis Mai ym Mrwsel. Roedd Prif Weinidog Cymru'n bresennol yn cynrychioli gweinyddiaethau datganoledig y DU.

## Addysg, Diwylliant a Phobl Ifanc

Cytunodd y Comisiwn ar yr Adroddiad Interim ar Addysg a Hyfforddiant 2010 â'r Aelod-wladwriaethau, gan nodi'r cynnydd tuag at amcanion cyffredin yn gysylltiedig â phroses Lisbon o sicrhau bod yr UE yn economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ac yn un o'r rhai mwyaf cystadleuol yn y byd. Cyhoeddodd y Comisiwn gynigion amlinellol i ariannu rhaglenni ym maes addysg, pobl ifanc a diwylliant ym mis Mawrth. Mae hynt y gwaith sy'n cael ei wneud ar fanylion y rhaglenni hyn a maint terfynol y gyllideb ynghlwm wrth y drafodaeth ehangach ar arian yr UE ar gyfer 2007-13.

Mae sefydliadau Cymru wedi dangos brwdfrydedd am y rhaglenni hyn. Er enghraifft, mae tua hanner ysgolion Cymru yn gysylltiedig â rhaglen cyfnewid ysgol Comenius. Mae'r Cynulliad ac ELWa yn gwneud cynnig ar wahân am gymorth o dan raglen hyfforddiant galwedigaethol Leonardo am brosiect rhyngwladol ar drosglwyddo credyd.

Mae rhoi'r Papur Gwyn ar Ieuenctid ar waith yn parhau. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi cynigion ar amcanion cyffredin ar gyfer gwirfoddoli a chynyddu'r ddealltwriaeth am anghenion pobl ifanc.

Cyhoeddwyd dwy ddogfen o dan Strategaeth Cyflogaeth Ewrop: sef un ddogfen ar Gadarnhau gweithredu Strategaeth Cyflogaeth Ewrop a dogfen arall ar Ganllawiau ac Argymhellion Cyflogaeth. Y bwriad yn y pen draw yw sicrhau bod polisïau cyflogaeth aelod-wladwriaethau yn cydgysylltu. Ar sail Canllawiau blynyddol bydd pob aelod-wladwriaeth yn llunio Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ac yna asesir y rhain gan y Comisiwn ac aelod-wladwriaeth arall a'u hadolygu. Yna bydd y Comisiwn yn adrodd ar sut y mae'r Aelod-wladwriaethau wedi gweithredu'r Strategaeth Cyflogaeth Ewrop (EES) ac yn darparu argymhellion cyffredin a phenodol.

Disgwylir cyhoeddi Rheoliad Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Rheoliad Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop cyn bo hir.

Cymdeithas Wybodaeth, Arloesi, Ymchwil ac Ynni

Cyflwynodd 15 yr UE eu strategaethau band eang cenedlaethol i'r Comisiwn erbyn mis Mawrth. Roedd hyn yn galluogi'r Comisiwn i lunio dadansoddiad o dueddiadau polisi ar fand eang ar draws y bloc. Dangosodd bod cyfraddau band eang wedi dyblu rhwng 2002-03 ac mae'n disgrifio rôl bwysig cystadleuaeth wrth hyrwyddo hyn.

Mae dyfeisio cyfarwyddeb ddyfeisiadau a weithredir gan gyfrifiaduron, gyda'r nod o gysoni deddfau cenedlaethol presennol, yn cael ei drafod rhwng y Cyngor a'r Senedd.

Bydd y Cynllun Masnachu Allyriadau yn gweithredu o ddechrau 2005. Roedd gan Aelod-wladwriaethau tan 31 Mawrth i gyflwyno Cynlluniau Dyrannu Cenedlaethol yn nodi lwfansau ar gyfer y sectorau diwydiannol, trafnidiaeth ac ynni a/neu fesul eu sefydlu. Bydd y Comisiwn yn gwerthuso'r cynigion a bydd yr Aelod-wladwriaethau yn cadarnhau'r fersiynau terfynol erbyn mis Medi.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu yr UE ar Arloesi gan ganolbwyntio ar fenter ac yn cwmpasu pob sector, y rhai technolegol ac annhechnegol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i'r ymgynghoriad. Hefyd cyhoeddodd y Comisiwn Gynllun Gweithredu Technolegau Amgylcheddol gydag unarddeg o flaenoriaethau. Mae'r rhain yn amrywio o ddatblygu targedau perfformiad ar gyfer cynhyrchion allweddol i offerynau ariannol er mwyn annog buddsoddiad mewn technolegau amgylcheddol i fesurau sy'n annog y defnydd o dechnolegau amgylcheddol drwy gaffael cyhoeddus. Yn y DU, mae DEFRA wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer y camau nesaf a bydd y Cynulliad yn ymateb i'r rhain.

Mae'n edrych fel pe bai'r trafodaethau hirfaith ar y Gyfarwyddeb Fframwaith ar Gynhyrchion sy'n Defnyddio Ynni yn mynd i barhau i'r Arlywyddiaeth newydd yn yr Iseldiroedd, fel y mae'r cynigion sy'n ffurfio'r seilwaith ynni a diogelwch pecynnau cyflenwi.

Bydd adroddiad ar y rhaglen Fframwaith ar gyfer ymchwil a datblygiad (FP6) yn barod ym mis Mehefin a bydd hyn yn ychwanegu at y sefyllfa sy'n datblygu o ran y Comisiwn ar amcan Lisbon i roi hwb i gapasiti ymchwil ac arloesi ledled yr UE.

## Yr Amgylchedd

Llwyddwyd i gynnal ymagwedd iach tuag at ddeddfwriaeth amgylcheddol a chytunwyd ar y cynigion canlynol yn ystod hanner cyntaf 2004:

- Cyfarwyddeb yn diwygio sefydlu cynllun ar gyfer masnachu lwfans allyriad nwyon ty gwydr o fewn y Gymuned, mewn perthynas â mecanweithiau prosiect Protocol Kyoto.
- Cyfarwyddeb ar rwymedigaeth amgylcheddol o ran atal gwella niwed amgylcheddol;
- Cyfarwyddeb ar gyfyngu ar allyriadau o gyfansoddion organig anweddol o ganlyniad i'r defnydd o doddyddion organig mewn paent a farnais;
- Rheoliad ar lygryddion organig parhaus;
- Rheoliad yn ymwneud ag Offeryn Ariannol ar gyfer yr Amgylchedd;
- Cyfarwyddeb yn ymwneud ar arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig amlgylchredol mewn aer amgylchol.

Bydd y Comisiwn a'r Arlywyddiaeth newydd yn anelu yn ystod ail hanner y flwyddyn i hybu'r ffeiliau ar Anfon Gwastraff ar Longau, Dwr daear, Gwastraff cloddio, Nwyon wedi'u fflworineiddio, a REACH (rheolaeth lymach o gemegolion niweidiol). Bydd y Comisiwn hefyd yn edrych ar hynt y drafodaeth ynghylch y tair strategaeth thematig gyntaf (pridd, gwastraff a phlaladdwyr) o saith, a gynlluniwyd o dan y chweched rhaglen weithredu Amgylcheddol (2002-2012).

**Y Gyfarwyddiaeth Ewropeaidd a Materion Allanol**